

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Stopio cosbi corfforol yng Nghymru

## Gwybodaeth i weithlu'r sector gofal plant a gwaith chwarae

Ar 21 Mawrth 2022, daeth Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 i rym. Mae cosbi plant yn gorfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru bellach.

Os ydych yn gweithio gyda phlant yn y sector gofal plant a gwaith chwarae, gan gynnwys gofal dydd, gwarchod plant, gofal sesiynol, crèches, darpariaeth y tu allan i'r ysgol/gwyliau, darpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio a darpariaeth Dechrau'n Deg, neu os ydych yn nani, dyma beth sydd angen i chi ei wybod.

### Beth yw cosb gorfforol?

Mae sawl math o gosb gorfforol. Fel smacio, taro, slapio ac ysgwyd.

Ond mae mathau eraill hefyd.

Mae'n amhosibl rhestru pob math o gosb gorfforol. Gall fod yn unrhyw ddull o gosbi plentyn gan ddefnyddio grym corfforol.

### Beth sydd wedi newid?

Ers 21 Mawrth 2022, ni all unrhyw un yng Nghymru ddefnyddio 'amddiffyniad cosb resymol' os yw'n cael ei gyhuddo o ymosodiad cyffredin.

Mae cosbi corfforol o unrhyw fath yn anghyfreithlon yng Nghymru.

### A yw'r gyfraith newydd yn berthnasol i bawb yng Nghymru?

Ydy, mae'n berthnasol i bawb – rhieni neu unrhyw un sy'n gyfrifol am blentyn tra bo'r rhiant yn absennol.

Ac fel gyda chyfreithiau eraill, mae'n berthnasol i ymwelwyr â Chymru hefyd.



### Pam mae'r gyfraith hon yn bwysig?

Amcan cyffredinol y gyfraith hon yw amddiffyn hawliau plant drwy wahardd cosbi plant yn gorfforol. Mae hyn yn golygu bod gan blant yr un amddiffyniad rhag ymosodiad ag oedolion. Mae'r gyfraith yn glir - hawdd i blant, rhieni, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd ei deall.

Bwriedir i'r Ddeddf, ar y cyd ag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a chymorth i rieni, arwain at ostyngiad pellach yn y defnydd a'r goddefgarwch o gosb gorfforol i blant yng Nghymru. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod ymchwil yn awgrymu y gallai unrhyw fath o gosb gorfforol fod yn niweidiol i blant.

Stopio Cosbi Corfforol
Ending Physical Punishment

## Beth sy'n digwydd os yw rhywun yn cosbi plentyn yn gorfforol?



**Maent yn torri'r gyfraith.**

**Nid rhwystro rhieni rhag disgyblu eu plant yw bwriad y gyfraith newydd. Fodd bynnag, os ydynt yn defnyddio cosb gorfforol i ddisgyblu plentyn sydd yn eu gofal, gallent gael eu cyhuddo o ymosodiad cyffredin. Efallai y cânt gofnod troseddol, sydd yr un fath ar gyfer unrhyw drosedd.**

**Mae cyngor a chymorth ar gael ar draws Cymru i annog pobl i roi'r gorau i ddefnyddio cosb gorfforol a dod o hyd i ffyrdd cadarnhaol o reoli ymddygiad plant.**

**Mewn achosion lle mae'r heddlu yn penderfynu bod angen cymryd camau pellach, mae yna opsiwn i adsefydlu'r unigolyn yn hytrach na'i erlyn. Os yw'r heddlu yn penderfynu bod hyn yn briodol, gallant gyfeirio'r unigolyn at gymorth rhianta y tu allan i'r llys er mwyn hybu technegau magu plant cadarnhaol a'i helpu i osgoi aildroseddu. Yr awdurdodau lleol sy'n darparu'r cymorth ychwanegol hwn.**

## Beth mae hyn yn ei olygu i fy sector i?



**Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed yn rhoi cyfrifoldeb ar y person cofrestredig i sicrhau na ddefnyddir cosbau corfforol, na'r bygythiad ohonynt byth.**

**Mae disgwyliadau clir hefyd yn y safonau mewn perthynas ag amddiffyn a diogelu plant. Mae gan bob gwasanaeth, gan gynnwys gwasanaethau nad ydynt wedi cofrestru, gyfrifoldebau tuag at y plant yn eu gofal.**

**Dylech gyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru a'u Canllaw Ymarfer ar Ddiogelu plant mewn perthynas â Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020, wrth ymdrin ag achosion o gosb gorfforol. Dylech hefyd barhau i gadw llygad ar ddiweddariadau a wneir i ganllawiau a hyfforddiant gan eich sector chi.**

**Ar draws pob sector, mae diddymu amddiffyniad cosb resymol yn golygu bod ymarferwyr yn gallu darparu cyngor clir, diamwys i rieni a gofalwyr bod unrhyw lefel o gosb gorfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru.**



## Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

I wybod mwy am stopio cosbi corfforol ewch i:
llyw.cymru/StopioCosbiCorfforol

Mae *Magu Plant. Rhowch amser iddo* yn cynnig tips a chyngor arbenigol ar fagu plant mewn modd cadarnhaol:
llyw.cymru/rhowchamseriddo

Gweithdrefnau Diogelu Cymru:
diogelu.cymru

Gweithdrefnau Diogelu Cymru (Canllaw Ymarfer):
*Diogelu plant mewn perthynas â Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020*

Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed:
llyw.cymru/safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-plant-wedii-reoleiddio

**Mae'r oes wedi newid. Mae agweddau wedi newid.
Does dim lle i gosbi corfforol mewn Cymru fodern.**